# BWYD HANUKKAH



## LATKE TATWS

Mae olew yn rhan bwysig o draddodiad Hanukkah felly mae coginio bwyddydd efo olew yn rhan o'r dathliadau.

**CYNHWYSION (i fwydo 6)**

3 **tysen** go fawr, heb y croen
1 **nionyn** bychan, heb y croen
2 **ŵy**
3 llwy fwrdd o **flawd**
½ llwy de o **halen**
½ llwy de o **bupur du**
**Olew** coginio
**Saws Afal**
**Papur cegin**





**PARATOI**

1. Tynnwch y **croen** oddi ar y **tatws** efo'r teclyn.
2. **Gratiwch y tatws** yn ofalus ar le fflat (cadwch bennau eich bysedd oddi wrth y gratiwr).
2. Rhowch y tatws a'r **nionyn** (wedi eu gratio) mewn cadach llestri a **gwasgwch y dŵr** i gyd ohonyn nhw. Hwn yw'r darn pwysicaf os am gael y Latke Tatws gorau, felly gwasgwch nhw'n dda!
3. Rhowch y tatws a'r nionyn mewn powlen. Ychwanegwch yr **wyau, blawd, halen** a **phupur**. Cymysgwch y cyfan yn dda.
4. Rhowch olew coginio mewn padell ffrio a rhowch y badell ar wres cymhedrol. Rhowch lwyaid o'r cymysgedd o'r bowlen i mewn i'r olew a'i wasgu i lawr efo cefn llwy i'w wneud yn fflat. Mi fydd hyn yn cadw'r Latke efo'i gilydd wrth goginio. Ffriwch am **1 funud** yna trowch y Latke drosodd a ffrio'r ochr arall am **1 funud**.
5. Rhowch y **Latke** ar **bapur cegin** i gael gwared â'r olew cyn eu rhoi ar blât. Mae rhai pobl yn hoffi saws afal efo nhw.
7. Mmmmmmmmwynhewch!

https://www.youtube.com/watch?v=7cqNGLFr-J4